# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Swyddog perthnasol:** | Aled Davies, Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 11/6/2024 |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad yn effeithiol.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

3.1 Pwrpas yr adroddiad yw i ddiweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet dros Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-2028; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran sefyllfa ariannol yr adran.

3.2 Hoffwn eich atgoffa bod yr holl faterion wedi eu trafod mewn cyfarfod rhyngof i, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a chynrychiolaeth o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Dylid nodi mai gwybodaeth Chwefror, Mawrth ac Ebrill 2024 a graffwyd yn y cyfarfod hwnnw ym mis Mai ac nid wyf yn bwriadu manylu ar bob mesurydd a phrosiect ond rwyf wedi amlinellu'r meysydd penodol sydd i'w llongyfarch neu sy'n destun pryder i mi.

**4. Prosiectau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28**

4.1 Isod, mae diweddariad fesul prosiect i amlygu'r prif feysydd sydd wedi gweld cynnydd neu sy'n peri pryder ond dylid nodi nad wyf yn cyfeirio at bob un llif gwaith gan fod prosiectau'r adran yn eang iawn.

4.2 Dylid nodi fod y prosiectau wedi eu hail becynnu erbyn hyn er mwyn ceisio sicrhau eglurder ar y cerrig milltir ac felly fod y teitlau yn wahanol i'r hyn y byddwch wedi eu gweld yn y gorffennol.

**Moderneiddio ein hadnoddau gofal i gwrdd ag anghenion y dyfodol**

4.3 Mae'r gwaith ar uwchraddio ein cartrefi yn y Bermo a Dolgellau yn dod i ben, gyda cheisiadau wedi mynd i Arolygaeth Gofal Cymru er mwyn addasu'r cofrestriad ar gyfer

ein cartref yn y Bermo. Mae’r sefyllfa recriwtio yn dechrau edrych yn well yn ein cartref ym Mangor ac felly gobeithiwn fedru gwneud defnydd gwell o’r uned dementia newydd dros y cyfnod nesaf.

4.4 Mae trefniadau i fedru darparu 2 dŷ a chefnogaeth newydd ar gyfer unigolion gydag Anableddau Dysgu yn y sir yn mynd rhagddynt a thrafodaethau cadarnhaol yn digwydd o ran penodi safle ar gyfer Tai Gofal Ychwanegol yng Nghaernarfon.

**Defnyddio mwy ar dechnoleg i wella gallu trigolion Gwynedd i gael mynediad at gefnogaeth a gofal**

4.5 Rydym yn peilota’r defnydd o gyfeirlyfr electronig Dewis Cymru ym Mangor a Dolgellau ar hyn o bryd ac yn datblygu fersiwn Gwynedd o AskSara, therapydd galwedigaethol rhithiol. Bydd yr adnoddau hyn yn helpu trigolion y sir i gynorthwyo eu hunain ac i ddarganfod cyfleon sy’n hyrwyddo eu llesiant yn lleol.

4.6 Mae’r gwaith o uwchraddio offer teleofal ar ei ganol ac yn mynd yn dda hyd yma, a rydym yn rhagweld gorffen y gwaith yma erbyn Rhagfyr eleni. Rydym hefyd wedi dechrau cwrdd gyda chwmnïau sy’n cynnig gwasanaeth waled rithiol fel rhan o’n prosiect Taliadau Uniongyrchol er mwyn trafod opsiynau sydd ar gael.

**Cydweithio gyda Gwasanaethau Iechyd i alluogi pobl i fyw eu bywyd gorau yn y gymuned**

4.7 Er mwyn symud y gwaith o ddatblygu’r Timau Adnoddau Cymunedol yn ei flaen, rydym wedi penodi Rheolwr Prosiect i arwain y rhaglen waith ac mae hi eisoes wedi cychwyn yn ei swydd.

4.8 Mae’r Gwasanaeth Iechyd Meddwl newydd wedi’i sefydlu a’r gweithlu wedi eu ail-leoli i leoliadau’r cyngor. Mae’r gwasanaeth ar hyn o bryd yn sefydlu eu trefniadau ac yn sicrhau bod y cydweithio gyda Iechyd yn parhau’n gryf i'r dyfodol.

**Datblygu cyfleon hyfforddi a gwaith ar gyfer unigolion sydd angen cefnogaeth**

4.9 Mae’r cyfnod tendr i wneud y gwaith ar ddatblygu Canolfan Dolfeurig newydd wedi dod i ben ar 28 o Fai a gobeithiaf fedru rhannu dyddiad cychwyn ar gyfer y gwaith yn fuan iawn.

4.10 Rydym wedi penodi Cydlynydd Llwybr Gyrfa Anabledd Dysgu gan ddefnyddio cyllid rhanbarthol. Bydd y cydlynydd yn gweithio ar draws Gwynedd a Môn. Rydym hefyd wedi rhyddhau amser 3 Swyddog Cefnogol o fewn y gwasanaeth i fod yn hyrwyddo cyfleon gwaith a chefnogi unigolion i waith cyflogedig ac fel y bydd y mesurau’n ddangos yn hwyrach yn yr adroddiad, mae hyn wedi bod yn llwyddiant yn barod.

**Llechen Lân**

4.11 Mae ein dadansoddiad cychwynnol wedi’i gwblhau a’i gyflwyno i’r Tîm Arweinyddiaeth. Mae’r argymhellion wedi eu cytuno yn y cyfarfod hwnnw a’r cam nesaf fydd i gadarnhau’r amserlen ar gyfer y gwaith a phenodi pwy fydd yn arwain ar y wahanol argymhellion.

## 5. Perfformiad a Mesurau

5.1 Mae’r adran yn parhau gyda'r gwaith i gryfhau eu trefniadau a’u mesurau perfformiad ac yn gwneud cynnydd ar hynny o gyfarfod i gyfarfod. Mae nifer o fesurau gan yr adran bellach ond byddaf yn cyfeirio isod at y rhai sy’n peri pryder neu’n destun llongyfarch.


5.2 O fewn y **Gwasanaeth Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyraidd** mae’r rhestr aros ar gyfer derbyn asesiad therapi galwedigaethol yn parhau i gynyddu. Ond, mae’n ymddangos fod unigolion yn aros am lai o amser bellach gyda’r nifer sy’n aros am fwy na 90 diwrnod wedi lleihau o 62 ddiwedd mis Ionawr i 43 erbyn diwedd Ebrill. Fel rwyf wedi adrodd o’r blaen, mae capasiti a phenodi i rolau therapyddion wedi bod yn heriol iawn ond, mae Arweinydd Therapi newydd wedi cychwyn yn ei rôl a phenodiad Ymarferydd Arweiniol wedi’i wneud i lenwi’r bwlch hefyd. Bydd yr Arweinydd yn rhoi sylw i’r rhestr aros fel un o’i phrif flaenoriaethau. Mae gennym hefyd hyfforddai yn cymhwyso fis Mehefin. Nodais yn flaenorol ein bod wedi addasu swydd ddisgrifiadau Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol, ac maen nhw bellach wedi cwblhau hyfforddiant BTEC Lefel 4 sy’n eu galluogi i asesu achosion fwy cymhleth i’r dyfodol.

5.3 Yn fy adroddiad diwethaf, roeddwn yn adrodd pryderon fod cynnydd wedi bod unwaith eto yn y canran o oriau **gofal cartref** sydd heb eu diwallu. Mae’r ganran wedi disgyn yn sylweddol gan fod ar ei isaf ers blwyddyn. Fodd bynnag, roedd dal yn 10% ddiwedd Ebrill gyda 113 unigolyn yn aros am ofal cartref o’r newydd a 14 yn aros am gynnydd i’w pecyn presennol (o’i gymharu â 157 a 30, yn yr un drefn, ddiwedd Medi 2023). Mae’r rhestrau’n parhau o ganlyniad i ddiffyg gallu darparwyr gofal i gwrdd â’r galw yn ein ardaloedd. Erbyn hyn, mae darparwr wedi bod yn llwyddiannus yn ennill y dendr ym Mlaenau Ffestiniog ond nid ydym wedi gallu denu ymgeiswyr ar gyfer y dendr yn ardal Porthmadog. Mae’r adran wrthi felly yn edrych ar yr opsiynau o ran cydweithio ar draws y ddwy ardal. Mae ardaloedd eraill sy’n peri pryder hefyd gan gynnwys Tywyn, Harlech a Llanberis ac mae gwasanaeth Sicrwydd Ansawdd yr adran yn cydweithio’n agos gyda darparwyr i’w cefnogi gyda’r heriau presennol.


5.4 Fel nodais ynghynt mae Swyddogion Cyfleon Gwaith newydd mewn lle yn y gwasanaeth **Anabledd Dysgu**, ac mae’r nifer o unigolion sydd ar y llwybr cyfleon gwaith wedi cynyddu’n sylweddol o 51 ym Medi 2023 i 99 erbyn Ebrill 2024. Mae’r nifer sydd mewn gwaith cyflogedig wedi cynyddu o 23 i 37 yn yr un cyfnod hefyd. Rwy’n hynod o falch o nodi’r niferoedd yma ac yn edrych ymlaen i weld datblygiad y gwasanaeth dros y cyfnod nesaf yn dilyn penodi’r Cydlynydd Llwybr Gyrfa.

5.5 Mae’r gwasanaeth llesiant wedi llwyddo dros y misoedd diwethaf i ddenu 253 o unigolion ar draws y sir at wasanaethau **Dementia Actif**. Mae’r gwasanaeth yma yn hanfodol i gefnogi unigolion sy’n byw â dementia a’u teuluoedd ond mae 166 o’r unigolion yma yn unigolion sydd heb ddiagnosis o ddementia, a sydd ddim yn ofalwyr chwaith. Rwy’n hynod o falch o weld y niferoedd yma ac mae’n pwysleisio pa mor hanfodol yw gwasanaethau ataliol sydd yn cynorthwyo bobl i barhau i fyw’n annibynnol ac i gyfrannu o fewn eu cymunedau, gan hefyd roi cefnogaeth gwbl hanfodol i ofalwyr di-dâl.


5.6 Rwy'n falch o nodi fod perfformiad y gwasanaethau **Diogelu Oedolion a'r Timau Adnoddau Cymunedol** yn parhau yn gyson gan lwyddo i ymateb yn amserol i gyfeiriadau ynghanol pwysau gwaith arall. Rydym wedi gweld dirywiad bychan yn y nifer o ymholiadau sydd wedi eu cwblhau o fewn 7 diwrnod dros yr wythnosau diwethaf. Mae hyn o ganlyniad i salwch y Swyddog Diogelu a'r ffaith fod y baich gwaith ymchwilio a chofnodi yn syrthio ar yr Arweinyddion Ardal ar ben eu llwyth gwaith arferol nhw. Fodd bynnag, er y dirywiad yma yn cwblhau ymholiadau, nid yw'r gefnogaeth wedi dirywio a llwyddwyd i reoli'r perygl mewn 100% o achosion. Mae hwn yn berfformiad ardderchog i'r adran ymfalchïo ynddo. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n aros am asesiad **Diogelu rhag Amddiffyn Rhyddid (DoLS)** yn parhau yn bryderus gyda 340 o unigolion ar y rhestr aros am asesiad ddiwedd Ebrill. Mae'r adran wedi derbyn grant pellach gan y Llywodraeth i gefnogi'r gwaith o leihau'r rhestr aros a bydd trefniadau i asiantaeth ymgymryd â nifer o asesiadau yn mynd rhagddynt dros yr wythnosau nesaf. Mae'r adran yn bwriadu cyflwyno adroddiad archwilio mewnol ar sefyllfa DoLS i'r Pwyllgor Craffu ym mis Mehefin.





5.7 Mae perfformiad y gwasanaeth **Sicrwydd Ansawdd** i'w ganmol wrth iddynt lwyddo i fod wedi cynnal gweithgaredd monitro gyda 76% o ddarparwyr gofal yn y 12 mis diwethaf. Mae hwn yn ffigwr llawer uwch na'r hyn rydan ni wedi'i weld ers tro, ac mae trefniadau gwaith newydd y tîm wedi cyfrannu. Bellach, maen nhw'n cynnal ymweliadau byrrach a chyson yn canolbwyntio ar feysydd penodol gyda darparwyr yn hytrach nag ymweliadau hirfaith gyda bob darparwr i drafod pob agwedd o'u gwasanaeth. Mae hyn yn sicrhau gwell perthynas cydweithio rhwng y gwasanaeth a'r darparwyr ac yn golygu eu bod yn llwyddo i gyrraedd mwy o ddarparwyr.



5.8 Rwyf yn adrodd yn gyson bod ein cyfradd llenwi gwelyau mewn **cartrefi preswyl** mewnol yn bryderus i mi ac mae hyn yn parhau ar 80% serch cynnydd bychan ar adegau dros y misoedd diwethaf. Rwyf wedi derbyn eglurhad gan yr adran fod y ffigwr yma'n cynnwys gwelyau, sydd methu cael eu defnyddio ar hyn o bryd o ganlyniad i waith sy'n mynd rhagddo ar y cartrefi ac heb y rhain byddai'r ffigwr yn 86%. Fodd bynnag, rwy'n falch iawn o nodi fod y cais i gynyddu'r nifer yng nghofrestriad Hafod Mawddach, y Bermo wedi'i gyflwyno a gwaith yn digwydd i ymateb i faterion sydd wedi eu codi gan Arolygaeth Gofal Cymru er mwyn gallu agor y gwelyau. Rwyf hefyd yn falch o nodi fod gwaith wedi ei gwblhau ym Mhlas Hafan, Nefyn a 7 unigolyn newydd wedi symud i'r cartref yn ystod Ebrill a Mai. Mae'r broses o gynyddu capasiti cofrestriad Plas Hedd, Bangor hefyd yn mynd rhagddo. Rwy'n mawr obeithio y bydd yr holl waith yma yn fy ngalluogi i adrodd cynnydd yn fy adroddiad nesaf. Fodd bynnag, noda'r adran fod gan ambell gartref welyau gwag oherwydd diffyg galw yn yr ardal ac mae'r gwasanaeth pobl hŷn yn trafod yn rheolaidd gyda'r ysbytai i geisio llenwi'r gwelyau.




5.9 Rwy'n falch o adrodd ein bod yn gweld cynnydd bychan yn y canran o oedolion sy'n derbyn eu gwasanaethau drwy **daliadau uniongyrchol** (15% erbyn diwedd Ebrill o'i gymharu â 13% ym mis Medi 2023). Mae prosiect yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ailwampio'r drefn taliadau uniongyrchol ac i hyrwyddo ei ddefnydd, er mwyn lleihau'r pwysau ar ein darparwyr gofal a sicrhau mwy o reolaeth i unigolion ar eu trefniadau gofal. Yn yr un modd, rydym wedi bod yn rhoi sylw i'r gwasanaeth **teleofal** er mwyn tacluso'r trefniadau a sicrhau cysondeb ar draws o safbwynt cyfraniad ariannol unigolion tuag at y gwasanaeth. Mae'r niferoedd sy'n talu'r ffi wythnosol wedi gweld cynnydd bychan dros y misoedd diwethaf, a rwan fod y gwaith yma wedi'i wneud, byddwn yn mynd ati i hyrwyddo'r defnydd o'r gwasanaeth ac addasu ein mesurydd i ganolbwyntio ar hynny. Byddaf yn gallu darparu'r ffigurau hyn yn fy adroddiad nesaf.



## 6. Sefyllfa Ariannol

6.1 Ar sail adolygiad mis Awst 2023, roedd yr Adran Gyllid yn rhagweld y byddai'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn gorwario oddeutu £6.5m ar y gyllideb ar gyfer 2023/24. Erbyn cau cyfrifon 2023/24, roedd y gorwariant terfynol wedi lleihau i £3.9m. Roedd grantiau ac incwm ychwanegol un tro yn rhannol gyfrifol am y lleihad yn y gorwariant, tra bod ymdrechion yr adran i ddod i'r afael a rhai materion hefyd wedi cyfrannu. Y tro diwethaf i mi adrodd fe soniais fod bwriad gofyn am gynlluniau penodol ynglŷn a'r prif faterion oedd yn cyfrannu at y gorwariant – yn bennaf y ddarpariaeth gofal cartref, comisiynu lleoliadau preswyl a nyrsio, a'r Gwasanaeth Anableddau Dysgu. Rwyf wedi derbyn y cynlluniau yma, ac yn gliriach fy meddwl ynglŷn a mynd i'r afael â'r wahanol elfennau.

6.2 Mae grŵp wedi ei sefydlu o dan arweiniad y Pennaeth Oedolion i fynd i'r afael a'r gwasanaeth gofal cartref mewnol ac allanol. Byddaf yn derbyn diweddariad rheolaidd gan y grŵp ar gynnydd y gwaith. Mae adnodd ychwanegol dros dro wedi ei roi mewn er mwyn cynorthwyo efo'r materion sydd yn cyfrannu at y gorwariant sylweddol yn y ddarpariaeth mewnol yn benodol. Derbyniwyd bid o £1.6m i ariannu'r pwysau yn y maes Anabledd Dysgu, yn benodol o ran llety gyda chefnogaeth i unigolion. Bydd y gwasanaeth Anabledd Dysgu mewn gwell sefyllfa i gynnal cyllideb cytbwys ar gyfer 2024/25. O ran lleoliadau preswyl a nyrsio, mae sefyllfa'r farchnad yn parhau i lesteirio ein gallu i gadw rheolaeth ar y ffioedd sy'n cael eu talu am leoliadau fwy arbenigol (nyrsio gyda dementia yn bennaf), ond mae Gwynedd yn rhan o waith rhanbarthol i drio sefydlu trefn gosod ffioedd newydd drwy ddefnyddio meddalwedd CareCubed.

6.3 Rwyf yn adrodd yn gyson am y risg bod grantiau gan Lywodraeth Cymru (er enghraifft Grant RIF sydd oddeutu £2m i'r Adran Oedolion) yn cael eu crebachu ac yn ychwanegu ar y pwysau ariannol. Mae'r dyraniad RIF ar gyfer 2024/25 wedi ei rewi, sydd yn golygu toriad yn nhermau real. Byddaf yn parhau i gydweithio gyda'n partneriaid yn ranbarthol ac yn genedlaethol i bwysleisio i Lywodraeth Cymru fod angen cynnal a chynyddu y lefel buddsoddiad yn y sector.

6.4 Cafodd cynlluniau arbedion hanesyddol gwerth £1.48m eu dileu gan y cabinet yn ei gyfarfod ar y 7/11/23, gan nad oedd modd gweithredu ar y cynlluniau oherwydd newid mewn amgylchiadau/pwysau cynyddol ar y gwasanaethau. Er hynny, oherwydd y pwysau ariannol sy'n cael ei ragweld ar gyfer 2024/25 ac ymlaen, mae cynlluniau arbedion newydd gwerth oddeutu £1.45m wedi eu ychwanegu i gyllideb yr Adran ar gyfer 2024/25. Golygai hyn fod pwysau ychwanegol ar ben y gorwariant, a byddaf yn gofyn i'r Adran adrodd nôl i mi yn gyson ar gynnydd y cynlluniau arbedion newydd.

6.5 Mae'r gwaith yn parhau o dan arweiniad y cyfarwyddwr corfforaethol Huw Dylan Owen i edrych ar 'Llechen Lân' ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol. Hynny yw, sut fyddai ymarfer da o ran Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych i'r dyfodol, a faint fyddai'r gwasanaethau hynny'n ei gostio. Mi fydd darganfyddiadau y gwaith yma yn cael eu cyhoeddi yn ystod 2024/25, a bydd argymhellion ac amserlen yn dilyn.

## 7. Sylwadau Swyddogion Statudol

### 7.1 Prif Swyddog Cyllid

Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o sefyllfa ariannol yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

### 7.2 Swyddog Monitro

Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn a priodoldeb